

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (RESOURCE HOUSE, PENTRE GARDENS, CAERDYDD) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r briffordd. Nid awdurdodir cau’r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 29 Tachwedd 2019 o dan y cyfeirnod 18/02622/MJR ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Resource House, Pentre Gardens, Caerdydd) 2023 (“y Gorchymyn”), yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o’r Gorchymyn a’r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Hyb Grangetown, Havelock Place, Grangetown, CF11 6PA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA11611541.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 19 Gorffennaf 2023 wneud cais at y diben hwnnw i’r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (RESOURCE HOUSE, PENTRE GARDENS, CARDIFF) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the 1990 Act”) to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the County Council of the City and County of Cardiff on 29 November 2019 with reference 18/02622/MJR and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Resource House, Pentre Gardens, Cardiff) Order 2023 (“the Order”) ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Grangetown Hub Library, Havelock Place, Grangetown, CF11 6PA, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA11611541.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- a. it is not within the powers of the 1990 Act; or
- b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 19 July 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o'r briffordd sydd i'w gau

Darn petryalog ei siâp o briffordd ar gornel dde-ddwyreiniol Pentre Gardens, Heol Penarth, Caerdydd, yn mynd tua'r gorllewin o'i chyffordd ag Arglawdd Taffs Mead, sy'n 29 o fetrau o hyd yn y man hiraf a 2 fetr o led yn y man lletaf, ac wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y Datblygiad

Bydd y datblygiad yn galluogi datblygiad preswyl o 74 o unedau i gael ei godi gyda gwaith seilwaith a pheirianneg cysylltiedig yn Resource House, 54B Heol Penarth, Grangetown, Caerdydd, CF11 6NG.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of the highway to be stopped up

A rectangular-shaped length of highway located on the south-eastern corner of Pentre Gardens, Penarth Road, Cardiff, heading west from its junction with Taffs Mead Embankment, with a maximum length of 29 metres and a maximum width of 2 metres, and marked with zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2
(All measurements are approximate)

The Development

The development will enable the erection of a residential development of 74 units with associated infrastructure and engineering works at Resource House, 54B Penarth Road, Grangetown, Cardiff, CF11 6NG.